

Crynodeb Gwirio Ansawdd
Canolfan Atgenhedlu a Gynecoleg
Cymru a Gorllewin Lloegr
Dyddiad y gweithgarwch: 1 Chwefror
2022

Dyddiad cyhoeddi: 8 Mawrth 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wriad ansawdd o bell o Ganolfan Atgenhedlu a Gynecoleg Cymru a Gorllewin Lloegr (CRGW) fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae CRGW yn ysbyty annibynnol sydd wedi'i leoli yn Llantrisant, Rhondda Cynon Taf, ac sy'n arbenigo mewn ffrwythlondeb ac iechyd atgenhedlol. Mae'r triniaethau a gynigir yn cynnwys ffrwythloni mewngroth (IUI)¹ a ffrwythloni in vitro (IVF),² gan gynnwys chwistrelliad sberm mewnsyttoplasmig (ICSI).³ Mae'r gwasanaeth yn cynnig y triniaethau hyn gydag wyau a/neu sberm partner neu roddwr a hefyd yn cynnwys rhewi embryonau,⁴ rhewi öosytâu⁵ a rhewi sberm i gleifion ar gyfer triniaeth(au) ffrwythlondeb yn y dyfodol.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2011. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig ar 1 Chwefror 2022, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am ei wasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llwybrau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych yn sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel?

¹Mae "IUI" (ffrwythloni mewngroth) yn driniaeth ffrwythloni lle mae sberm yn cael ei roi'n uniongyrchol i groth menyw.

² Mae "IVF" (ffrwythloni in vitro) yn weithdrefn feddygol lle mae wyau menyw yn cael eu ffrwythloni gan sberm y tu allan i'w chorff mewn tiwb profi.

³ Mae "ICSI" (chwistrelliad sberm mewnsyttoplasmig) yn fath o IVF ond mae'n cynnwys chwistrellu sberm dyn yn uniongyrchol i wy menyw y tu allan i'r corff.

⁴ "Embryo" yw'r term a ddefnyddir ar gyfer epil dynol yn ystod y cyfnod o tua'r ail wythnos i'r wythfed wythnos ar ôl ffrwythloni (ar ôl hynny, fel arfer, fe'i gelwir yn ffetws).

⁵ Gelwir cell wy menyw sydd yn y broses o ddatblygu yn "öosyt".

-
- Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth iddynt gyrchu gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
 - Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
 - Sut ydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau yn cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym roedd:

- Yr asesiadau risg / archwiliadau amgylcheddol mwyaf diweddar
- Polisiâu/gweithdrefnau diogelwch tân, gan gynnwys yr asesiad risg ar gyfer diogelwch tân (os yw'n berthnasol)
- Ardystiadau diogelwch trydanol

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dyweddodd y rheolwr cofrestredig wrthym am y newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i amgylchedd y clinig a oedd yn galluogi i gleifion gael eu gweld yn ystod y pandemig COVID-19. Cawsom wybod bod niferoedd cylchoedd triniaethau ffrwythlondeb wedi'u gostwng er mwyn lleihau nifer y cleifion sy'n ymweld â'r clinig pob dydd. Roedd hysbysiadau i'w gweld yn yr ardaloedd aros a chyntedd yr adeilad i atgoffa cleifion o'r rhagofalon oedd ar waith yn y clinig er mwyn lliniaru risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19. Yn ogystal â hyn, mae adran benodol ar wefan y clinig sy'n esbonio'r gweithdrefnau uwch sydd ar waith i amddiffyn y cleifion ac ymwelwyr.

Gofynnwyd i gleifion fynychu ar eu pennau eu hunain a threfnu apwyntiadau ymlaen llaw pryd bynnag y bo'n bosibl. Roedd yn ofynnol i wisgo masgiau wyneb wrth fynd i mewn i'r adeilad ac roedd gorsafodd diheintio dwylo ar gael wrth fynd i mewn i adeilad y clinig ac ym mhob rhan ohono.

Dyweddwyd wrthym fod sgriniau plastig clir wedi'u gosod ar ddesg y dderbynfa ac yn y cyntedd er mwyn diogelu cleifion a staff a gosodwyd sticeri ar y lloriau i annog cleifion a staff i gadw pellter cymdeithasol. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y cadeiriau yn yr ardal

aros wedi'u symud yn briodol i ganiatáu cadw pellter cymdeithasol.

Mae'r clinig ffrwythlondeb wedi'i adeiladu'n bwrpasol ac wedi'i leoli ar ddau lawr. Mae'r ardaloedd ar gyfer y cleifion yn cynnwys ystafell aros, ystafelloedd ymgynghori, theatrau meddygol, gan gynnwys ystafelloedd adfer at ddefnydd sengl, ac ystafelloedd sganio penodol. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod lifft ar gael i gleifion sydd ag anawsterau hygrychedd er mwyn iddynt gael mynediad at y llawr cyntaf a bod y clinig yn cynnig gwasanaeth cyfieithu i gleifion nad oeddent yn siarad Saesneg. Yn ogystal â hyn, dywedwyd wrthym fod disgwyl i aelodau o'r staff gwblhau cwrs hyfforddi ar gydraddoldeb fel rhan o'u hyfforddiant gorfodol blynyddol. Gwnaethom nodi bod y clinig yn weithredol wrth annog cleifion o'r un rhyw neu drawsryweddol i fynd ato am driniaethau ffrwythlondeb a bod triniaeth ar gael i bawb.

Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig ddisgrifio'r darpariaethau sydd ar waith i annog cleifion i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedwyd wrthym fod rhai posteri ar gael yn ddwyieithog a bod dau aelod o staff yn cymryd rhan mewn cyrsiau Cymraeg ar hyn o bryd er mwyn annog defnydd o'r Gymraeg.

Gwelsom dystiolaeth bod asesiadau ar gyfer cyfarpar diogelwch nwy a thrydan a chyfarpar diogelwch tân wedi'u cwblhau'n ddiweddar. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod wedi mynd i'r afael â chymau unioni a nodwyd yn yr asesiadau hyn yn ddiweddar.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Polisiau rheoli heintiau cyffredinol a pholisiau penodol ynghylch COVID-19
- Asesiadau risg ynghylch COVID-19
- Canlyniadau'r archwiliad hylendid dwylo mwyaf diweddar
- Yr asesiadau risg / archwiliadau rheoli heintiau mwyaf diweddar
- Amserlenni a rhestrau gwirio glanhau
- Polisi rheoli gwastraff
- Protocolau ar gyfer anafiadau gan offer miniog (nodwyddau)

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig ddarparu manylion am y polisiau a gweithdrefnau sydd ar waith i ddiogelu cleifion a staff pan gynhelir triniaethau neu ymgynghoriadau. Dywedwyd wrthym fod y clinig yn dilyn y canllawiau diweddaraf a gyhoeddwyd gan Brif Swyddog Meddygol Cymru. Roedd hyn yn golygu y gellid gweld cleifion yn ddiogel yn y clinig. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod staff y clinig yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am y canllawiau hyn trwy gyfarfodydd staff rheolaidd. Cedwid cofnodion o'r cyfarfodydd hyn ac roeddent ar gael i'r staff eu darllen. Defnyddiwyd trafodaethau â chymheiriaid a negeseuon e-bost hefyd i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o wybodaeth bwysig ynghylch diweddariadau i ganllawiau COVID-19.

Dyweddodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod cyfres o gynlluniau wrth gefn ar waith er mwyn sicrhau bod y clinig yn gallu darparu gwasanaeth parhaus a gofal parhaus i gleifion. Roedd y rhain yn cynnwys gweithredu "swigod" staff er mwyn lleihau'r posibilrwydd o niferoedd mawr o staff yn gorfod hunanynysu. Yn ogystal â hyn, roedd y staff wedi cynnal asesiadau risg COVID-19 i sicrhau eu bod yn ddiogel i weithio. Cafodd staff beichiog neu'r rheiny a nodwyd eu bod â risg uwch o COVID-19 eu hailbenodi i ardaloedd gwahanol o'r clinig er mwyn eu diogelu.

Dyweddodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod yr holl staff wedi ymgymryd â hyfforddiant o ran sut i wisgo a diosg⁶ cyfarpar diogelu personol ac mewn hylendid dwylo cywir. Cyflawnwyd hyn drwy ddefnyddio cwrs ar-lein a oedd yn rhan o'r hyfforddiant gorfodol y mae angen i staff ei gwblhau'n flynyddol.

Dyweddodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod cwmni allanol yn glanhau'r clinig ac mae contract ffurfiol ar waith. Cawsom wybod, yn ogystal â'r amserlen lanhau arferol, fod glanhau ychwanegol yn digwydd i gynnwys eitemau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml megis switshis golau, handlenni drysau a chanllawiau grisiau. Gwelsom fod rhestrau gwirio glanhau ar waith a oedd wedi cael eu llofnodi, eu dyddio a'u cwblhau ar gyfer pob ardal o'r clinig i sicrhau y cynhelir amgylchedd glân ar gyfer cleifion, staff ac ymwelwyr.

Gosodwyd sgriniau rhwng pob desg yn swyddfeydd y clinig ac anogwyd staff i ddefnyddio'r un ddesg bob amser er mwyn atal y risg o groes-heintio. Darparwyd clytiau diheintio i staff er mwyn iddynt lanhau eu gorsafoedd gwaith ar ôl pob defnydd.

Dyweddodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod ymgynghoriadau â chleifion bellach yn digwydd ar-lein yn defnyddio meddalwedd fideo-gynadledda. Gofynnwyd i'r cleifion hynny a oedd yn gorfod ymweld â'r clinig i lenwi holiadur ar-lein i wirio am symptomau COVID-19 cyn eu hapwyntiad. Byddai triniaeth unrhyw gleifion oedd â COVID-19 yn cael ei gohirio ac ni fyddent yn cael eu gweld wyneb yn wyneb yn y clinig. Roedd gwasanaethau cwnsela penodol ar gael i gleifion a oedd yn derbyn triniaeth ac yn gorfod gohirio eu cylchoedd IVF o ganlyniad i

⁶Mae "gwisgo" a "diosg" cyfarpar diogelu personol yn cyfeirio at wisgo a diosg eitemau megis masgiau wyneb, menig, cyfarpar diogelu llygaid, gynau llawfeddygol neu ffedogau.

COVID-19.

Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig am y trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod digon o gyfarpar diogelu personol ar gael. Dywedwyd wrthym fod y cyfrifoldeb hwn yn cael ei ddirprwyo i'r cynorthwydd gofal iechyd arweiniol, a oedd yn cael amser penodol pob pythefnos i wirio lefelau stoc ac archebu eitemau oedd eu hangen.

Gwelsom dystiolaeth o bolisiâu atal a rheoli heintiau, polisiâu glanhau ac asesiadau risg cynhwysfawr i ddiogelu yn erbyn COVID-19.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut, yng ngoleuni effaith COVID-19, maent wedi addasu eu gwasanaeth. Fe wnaethom archwilio a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau ac a ydynt wedi'u hyfforddi'n briodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Adroddiad ymweliad diweddaraf yr unigolyn cyfrifol yn unol â Rheoliad 28 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011
- Polisiâu/gweithdrefnau cydsyniad gwybodus
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o staff
- Asesiadau risg a gymerwyd mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, yr amgylchedd, ac iechyd a diogelwch staff
- Y dogfennau cynnal a chadw'r adeilad diweddaraf - gwiriad gwifrau bob pum mlynedd, tystysgrif nwy (os yw'n berthnasol), a dogfennau gwasanaethu tân
- Canllaw i gleifion
- Datganiad o ddiben
- Siartiau o'r sefydliad
- Polisi recriwtio

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Mae'r unigolyn cyfrifol⁷ ar gyfer CRGW yn arbenigo mewn meddygaeth atgenhedlu, obstetreg a gynaecoleg. Cefnogir yr unigolyn cyfrifol yn ei rôl gan y rheolwr cofrestredig, sydd hefyd yn rheolwr y practis ar gyfer y clinig. Mae'r clinig hefyd wedi cyflogi dau arbenigwr ffrwythlondeb arall, dau embryolegydd,⁸ pedair nyrs, tri chynorthwydd gofal iechyd, a thîm gweinyddol sy'n

⁷ Yr "unigolyn cyfrifol" yw cynrychiolydd cyfreithiol cwmni cyfyngedig sy'n gweithredu fel ysbyty annibynnol.

⁸ Mae embryolegydd yn wyddonydd, sydd fel arfer yn gweithio mewn clinig ffrwythlondeb neu labordy, sy'n gysylltiedig â gwaith ymchwil atgenhedlu neu asesiadau ffrwythlondeb. Gwyddonwyr yw embryolegwyr a allai

cynnwys saith gweithiwr. Mae'r staff yn gweithio ar draws dau safle'r clinig yn Llantrisant ac Abertawe. Dywedwyd wrthym fod y trosiant staff yn isel iawn a bod y rhan fwyaf o'r staff wedi gweithio i'r clinig am nifer o flynyddoedd. Ar adeg y gwiriad ansawdd, dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw aelod o staff wedi bod yn absennol yn hirdymor oherwydd salwch. Cawsom wybod bod y clinig yn recriwtio embryolegydd, dau aelod o staff gweinyddol, clinigydd a dwy nyrs ar hyn o bryd.

Gwelsom dystiolaeth o raglen hyfforddiant gorfodol gynhwysfawr a oedd wedi'i chwblhau gan yr holl staff a pholisi recriwtio cadarn. Roedd y polisi hwn yn nodi'r gwiriadau cyn cyflogi yr oedd yn ofynnol i'w cynnal ar gyfer pob aelod newydd o staff er mwyn sicrhau eu bod yn addas i gyflawni eu rolau.

Cawsom hefyd gopi o'r datganiad o ddiben gan y clinig a'r canllaw i gleifion, a oedd yn cynnwys trefniadau staffio, y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig, a sut i godi cwyn pe byddai cleifion yn teimlo bod angen gwneud hyn. Roedd y ddwy ddogfen yn gynhwysfawr ac yn unol â'r rheoliadau sy'n llywodraethu gofal iechyd annibynnol yng Nghymru.

Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig am y broses ar gyfer sicrhau bod digwyddiadau hysbysadwy, megis achosion o glefyd heintus, yn cael eu hadrodd yn brydlon i AGIC. Dywedwyd wrthym fod pob aelod o staff yn ymwybodol bod angen adrodd digwyddiadau o'r math hwn i AGIC mewn da bryd a sut i wneud hynny os oes angen.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y broses ar gyfer gwirio meddyginiaeth ac offer a ddefnyddir mewn achos brys. Dywedwyd wrthym fod y cyfrifoldeb hwn yn cael ei ddirprwyo i'r staff nyrsio. Roedd cyffuriau ac offer a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu gwirio bob bore ac yn cael eu cadw ar droli penodedig ger y theatrau llawdriniaethau ac roeddent yn hawdd eu cyrchu gan yr holl staff. Roedd y gwaith cynnal a chadw a gwasanaethu'r holl offer a ddefnyddir mewn achos brys, gan gynnwys y diffibriliwr a ddefnyddir mewn achos brys, yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwyr.

Gwelsom gopi o'r polisi rheoli meddyginiaethau ar gyfer y defnydd o gyffuriau a reolir.⁹ Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y staff nyrsio'n gyfrifol am gynnal gwiriadau ar y meddyginiaethau a'r cyffuriau a reolir sy'n cael eu cadw ar y safle. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod yr unigolyn cyfrifol yn goruchwyllo'r cyfrifoldeb er mwyn sicrhau bod y cyffuriau a reolir yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli eu storio a'u defnydd.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

fod yn hwyluso'r broses o gynnal profion, casglu samplau a gwneud gwaith labordy ar gyfer technolegau atgenhedlol â chymorth, megis ffrwythloni in vitro (IVF).

⁹Diffinnir y term 'cyffuriau a reolir' gan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 ("y Ddeddf") fel 'unrhyw sylwedd neu gynnyrch a bennir am y tro yn Rhan I, II neu III o Atodlen 2 i Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971'. Mae cyffuriau a reolir yn destun rheolaethau cyfreithiol llym ac mae deddfwriaeth yn penderfynu sut maent yn cael eu rhagnodi, eu cyflenwi, eu storio a'u gwaredu.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.